

Pwy Oedd Penllyn ac Ymhle Oedd Maglona?

Rwy'n gwybod yn iawn na fyddaf i byth yn ennill cadair fy hunan mewn unrhyw eisteddfod, ond yn ddiweddar gwelais gyfle gwych i brynu cadair eisteddfodol mewn siop hen bethau. Cadair drom a thraddodiadol o bren derw oedd hi (gw. Llun 1), gyda nifer o gerfluniau gwladgarol arni, sef cenhinen ar bob un o'r ddwy ystlysbyst, draig *rampant* ar banel y cefn, ac wrth gwrs y tair llinell /\\ sy'n sumboleiddio Yr Orsedd; ac odanynt, mewn priflythrennau ar y trawsbrennau, y geiriau allweddol: EISTEDDFOD GADEIRIOL MAGLONA 1898.

Yn Llandeilo oedd y siop hen bethau, ond dywedodd y perchennog ei fod yn credu bod gan y gadair ryw fath o gysylltiad gyda'r Gogledd, efallai Machynlleth. I Hwntw o leiaf, mae'r enw Maglona yn dipyn o bôs ond, yn fy niniweidrydd, meddyliais y byddai'n dasg weddol hawdd i ddarganfod pwy oedd y buddugwr gwreiddiol, ac ymhle enillodd ei gadair, a beth oedd testun ei awdl fuddugol.

Dim sôn am Maglona

Daeth yn amlwg yn fuan fod 'Maglona 1898' yn golygu nid eisteddfod genedlaethol ond un o'r ugeiniau o eisteddfodau cadeiriol eraill a oedd mor boblogaidd yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn y cyfnod hwnnw, cyhoeddai Evan Jones, Ty'n-y-Pant (Ieuan Buallt, amaethwr, hynafiaethydd brwd a hanesydd lleol o'r ardal Llanwrtyd) bob blwyddyn yn y cylchgrawn *Cymru* restrri cynhwysfawr sy'n rhoi gwybodaeth ar yr eisteddfodau cadeiriol trwy Gymru gyfan, gan enwi'r dref lle cynhaliwyd yr eisteddfod, enw buddugwr y gadair, a theitl ei awdl fuddugol. Yn y rhestr ar gyfer 1898 (gw. *Cymru* 1899, 16, t. 195) ceir manylion am ddeugain o eisteddfodau cadeiriol, ond does dim sôn am Maglona o gwbl. Serch hynny, gwelais fod rhywun o dan yr enw 'Penllyn' oedd wedi ennill y gadair ym Machynlleth yn y flwyddyn honno; yn anffodus, dyna'r unig eisteddfod yn y rhestr heb deitl yr awdl fuddugol.

Wedyn mae rhywun wedi f'atgoffa am lyfr arall, sef Rhestr Eisteddfodau Hyd 1901, a gyfansoddwyd gan y newyddiadurwr David Morgan Richards, ac a gyhoeddwyd gan Gomer yn 1914, ar ôl ei farw. Mae'r llyfr hwn yn brin iawn erbyn hyn, ond yn dra defnyddiol o hyd. Yn y rhestr a roddir ar gyfer 1898 (sy'n cynnwys dim llai na 95 o eisteddfodau gyda llaw) nid oes sôn am eisteddfod ym Maglona nac ym Machynlleth ychwaith, ond mae'n gyfeiriad moel at eisteddfod ym Mhennal, heb unrhyw fanylion pellach.

Yn y gwyddoniadur *Cymru: yn Hanesyddol, Parthedegol a Bywgraffyddol* (dan olygiad Y Parch.

Owen Jones; Llundain 1875) ceir rhywfaint o hysbysrwydd pellach: 'MAGLONA. Gwel Machynllaith'. Ac o dan 'Machynllaith' ceir yr esboniad canlynol: 'Tybir iddi fod gynt yn orsaf Rufeinig, ac mai hi oedd Maglona, lle yr oedd un o'r llengoedd yn gwersyllu, er cadw y mynyddwyr o dan law'; ac â ymlaen i sôn hefyd am weddillion Rhufeinig ym Mhennal 'tua phedair milltir oddiyma'.

Wedyn, cefais esboniad clir a phendant o statws yr enw Maglona mewn erthygl awdurdodol gan Enid Pierce Roberts o dan y teitl 'Enwau lleoedd Bro'r Eisteddfod' yn y llyfr Maldwyn a'i Chyffiniau (gol. Gwynn ap Gwilym a Richard H. Lewis, 1981, t.14). Meddai hi:

'Nid oes cysylltiad o gwbl, nac yn hanesyddol nac yn ieithyddol, rhwng Machynlleth a Maglona, er bod cred hynafiaethol o'r fath wedi ffynnu ers pedair canrif bellach. Ni wya'r neb i sicrwydd ymhle yr oedd Maglona, ond y mae A. L. F. Rivet, yr awdurdod pennaf ar enwau lleoedd Prydain Rufeinig, o'r farn mai *Old Carlisle*, Cumberland, ydoedd, yn ôl pob tebyg'.

Naw'r te, o leiaf dyna'r ateb i hanner y pŵs. Maglona oedd enw hynafiaethol ond anghywir am Fachynlleth/Pennal. Ffugenw ffansi fel petai!

Penllyn yn un o ugeiniau o fân feirdd

Ond beth am y bardd buddugol yno, sef Penllyn? Dydy'r enw hwnnw ddim yn y rhestr ddefnyddiol iawn o ffugenwau beirdd a gyhoeddwyd gan M. Beatrice Davies fel atodiad yn *Y Bywgraffiadur Cymreig* (1953). Dywedodd un o'r awdurdodau pennaf ar hanes yr eisteddfod yn garedig i mi fod Penllyn yn 'un o'r ugeiniau o fân feirdd a fyddai'n cystadlu am lond cae o gadeiriau erystalwm'.

Felly, es ati i bori trwy fynegeion hen rifynnau'r *Geninen*, ac yn fuan taro ar yr enw Penllyn dro ar ôl tro. Mae'n bentwr o ddeunydd barddonol gan Penllyn wedi cael ei gyhoeddi yn nhudalennau'r cylchgrawn rhwng 1891 a 1913. Cystadlu mewn llyfdd fel Corwen, Y Brithdir, Ffestiniog, Llandudno, Y Bala a Llanuwchllyn a wna'i Penllyn, a fu'n fuddugol neu'n gydfuddugol yn reit aml. (Gyda llaw, ymhlith yr hysbysebion yn *Y Geninen* sylwais i hefyd fanylion am y cadeiriau eisteddfodol yn y cyfnod hwnnw, megis 'Cadair Dderw Gertiedig', neu 'Cadair hardd', a'i gwerth, e.e. tri gini neu chwe gini, neu £7.)

Yn Y Bala yn 1893, er enghraifft, yr oedd Penllyn yn gydfuddugol gyda'i gerdd o dan y teitl 'Llyn Tegid'. Y flwyddyn wedyn, 1894, enillodd Penllyn Bryddest Cadair Powys am ei waith hir 'Ar Hwn Yr Edrychaf'. Roedd Penllyn yn gydfuddugol hefyd yn Eisteddfod Corwen yn Awst 1902 am ei



Llun 1. Cadair Eisteddfod Maglona (Machynlleth) 1898

gyfansoddiad ar 'Coroniad Y Brenin Iorwerth VII'. Ysgrifennodd Penllyn gerddi goffa i nifer o enwogion cenedlaethol a lleol, pobl megis Y Prif Athraw Probert D.D., Y Parch. Samuel Owen (Tan-y-grisiau), Y Parch. T. Nicholson, Yr Hybarch D. Griffith (Bethel), a Watcyn Wyn, er enghraifft.

Cyfansoddodd Penllyn, hefyd, nifer fawr o englynion ar destunau amrywiol megis 'Anfarwoldeb', 'Gwlaw Mis Mai', 'Y Nadolig', 'Clorian', 'Yr Ymgeisydd Anffaeledig', 'Beddargraff Llewelyn, Llundain' ac 'Y Delyn wrth Ffynon Trefriw'. Dyma dri o'i englynion fel enghreifftiau o'i waith:

Y Bywydfad

*Llama eigion llym ei agwedd, - caria
Drwy'r corwynt ymgeledd
A chymorth i borth y bedd -
Ragorol Fâd Trugaredd.*

Y Ddynes Newydd, A'i Gwr

*Am ei arian ymmwria; - wedyn, aed
Yn ei ol i'r gloddfa:
Ei garu'n wir! Ei gwr wna
Yn beiriant enill bara.*

Y Draenog Pigog

*Llwyd bellen mewn llaid byllau - yw'r
Draenog -
Byr ei drwyn a'i goesau:
A chlog yn llawn bidogau
Am ei gorff sydd yn ymgâu.*

Erbyn hyn mae gyda fi ffeil go helaeth o waith barddonol Penllyn, ond mae'r uchod yn ddiog, efallai, i ddangos natur ac ansawdd ei gynnyrch barddonol. Ond methais ddarganfod ei enw nac unrhyw